

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3/3/2020

**Presennol:** Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Wyn Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc) **Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2099 Croesawyd** y Cynghorwyr gan y Cadeirydd a estynnodd groeso arbennig i Branwen Haf fel aelod newydd, a diolchodd iddi am ei pharodrwydd i wasanaethu'r gymuned.

**2100 Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant nad oeddent yn rhagfarnu ym mater 2108, (Ceisiadau Ariannol) oddi wrth Huw Antur, Alwyn Roberts, Dewi Wyn Jones, Arwel Lloyd Jones a Nia Heledd Jones. Derbyniwyd datganiadau o fuddiant a oedd yn rhagfarnu ym mater 2112 (Cais Cynllunio) oddi wrth Nia Heledd Jones a Beryl Hughes Griffiths.

**2101 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/2/2020.

**2102 Materion y Clerc o'r Cofnodion:**

- i. Cyhoeddwyd mai Branwen Haf yw'r Cynghorydd a gyfetholwyd i'r sedd wag ar y Cyngor.
- ii. Cytunodd y Cynghorwyr i ddod yng nghyd i gasglu sbwriel yn y pentref ar fore Sadwrn 28/3/20 gan ymgynnull wrth y neuadd am 9.30 a.m. Gwahoddir trigolion Llanuwchllyn i ymuno yn yr ymgyrch.
- iii. Hysbysfwrdd wrth yr Eglwys: diolchwyd i Arwel Lloyd Jones am gytuno i gadw golwg ar gynnwys yr hysbysfwrdd a thynnu hysbysebion sydd allan o ddyddiad.
- iv. Cyfeiriad e-bost y Cyngor: yn unol â'r gofynion crëwyd cyfeiriad penodol, sef [cyngor-llanuwchllyn@outlook.com](mailto:cyngor-llanuwchllyn@outlook.com)
- v. Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr: yn unol â gofynion deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2013 Adran 55(1), uwchraddiwyd manylion buddiannau'r Cynghorwyr.

**2103 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a ddywedodd ei fod wedi sicrhau fod y broblem o fwd ym Maes y Pandy ar raglen waith adran gofal ystâd Adra. Mae mater agor ffos ffordd Bryncaled sy'n creu gorlifant ar y ffordd heibio i Glwt y Person bellach ar raglen waith y Cyngor. Mae'n disgwyl ymateb i'r broblem o ddŵr yn parhau i gronni wrth y Bont Newydd ym Mhenantlliw. Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith gyda'r materion hyn.

**2104 Noson Goffi:** Roedd canmol uchel i'r Noson Goffi gan bawb a chytunwyd i ddiolch i Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched am eu gwaith eleni eto yn paratoi'r lluniaeth. Ar ôl talu'r costau roedd elw o £418 i'w anfon at elusen o ddewis y Cadeirydd, sef Ymchwil y Galon Cymru.

**2105 Materion Eiddo'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Karl Jones fod y gwaith o geisio am grant gan Gronfa Cefnogi Cymunedau Gwynedd mewn llaw. Cytunwyd i geisio cael llythyron o gefnogaeth i'r fenter.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

**2106 Y Fynwent:** Cytunwyd i geisio cael *planings* ar gyfer llenwi tyllau yn y maes parcio. Cytunodd Alwyn E Jones i gyd-weithio gyda Gwion Alwyn i greu lloches i gadw'r biniau yn y maes parcio. Cytunodd hefyd i gael gwared â gweddillion cwt y fynwent.

**2107 Un Llais Cymru:** Derbyniwyd Rhaglen Hyfforddiant a gynhelir yn Y Bala.

**2108 Materion ariannol:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol gyfredol trwy e-bost.
- ii. Cytunwyd i'r taliadau sef

Cyflog Chwefror y Clerc  
CThEM £56.20  
Aelodaeth Un Llais Cymru £109.00  
Cyfraniad y Cyngor i'r Neuadd £750.00  
Rhent y Neuadd am gynnal y Noson Goffi £40.00  
Costau Swyddfa £240.00

- iii. Cynllun Llwybr y Cei: Adroddodd y Cadeirydd fod y gwaith eleni yn cael ei wneud ar hyn o bryd a bydd wedi ei orffen erbyn y dyddiad cau yn ôl telerau'r grant gan Barc Cenedlaethol Eryri. Mae mwy o waith i'w gyflawni yn rhaglen y flwyddyn nesaf.
- iv. Ystyriwyd ceisiadau am nawdd i fudiadau a chytunwyd i gyfrannu fel a ganlyn:

Llên y Llannau	£100
Teulu Gwalia	£50
Adran Bentref yr Urdd	£200
Eisteddfod y Llungwyn	£100
Canolfan y Plase	£100
Eisteddfod Cylch Penllyn	£150
Theatr Bara Caws	£100
Clwb Pêl Droed	£400 (yn cynnwys cyfraniad prosiect)
Sioe Llanuwchllyn	£100
CFFI Glannau Tegid	£200
Eisteddfod Gen. Yr Urdd	£100
CFFI Meirionnydd	£200
Cylch Meithrin Llanuwchllyn	£100
Eisteddfod Powys 2021	£100 (gydag addewid o £100 yn 2021)

**2109 Is-bwyllgor Canmlwyddiant:** Derbyniwyd adroddiad Beryl Hughes Griffiths ar drefniadau nodi marwolaeth Syr O M Edwards. Mae cyflwyno'r hanes yn yr ysgol gynradd yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'r gwaith ar y prosiect ffotograffiaeth yn yr ysgol a ariennir gan y teulu yn mynd yn ei flaen. Bydd Hazel Walford Davies yn traddodi darlith ar OM ar nos Wener y 1af o fis Mai. Sicrhawyd bod ffilm a wnaethpwyd gan y BBC ar gael i'w harddangos ar nos Sadwrn yr 2il o Fai. Adroddwyd ar Daith y Mis sy'n cael ei pharatoi gan Barc Cenedlaethol Eryri ac a fydd yn barod erbyn mis Mai. Mae trafodaethau ar osod plac

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

wrth y Neuadd Wen i nodi cartref OM a'r teulu. Diolchwyd iddi ac i aelodau'r is-banel am eu gwaith. Cytunwyd iddynt dderbyn cyllid gan y Cyngor i hyrwyddo'r gweithgareddau.

**2110 Materion lleol:** Ystyriwyd mater y gorlif yn ddiweddar yn ardal Glanaber. Nodwyd y bu i'r Cyngor yn y gorffennol dalu am glirio'r ffos, ond dywedodd y Clerc nad oedd y gwariant yn gyfreithiol o fewn y pwerau gwariant a roddir i Gynghorau Cymuned. Wrth gydymdeimlo gyda'r trigolion yn ystod y trafferthion diweddar, cytunwyd nad oes gan y Cyngor Cymuned yr hawl i ymyrryd â llif dŵr, gan mai cyfrifoldeb Adran Amgylchedd Cyfoeth Naturiol Cymru ydyw hyn. Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydyw sicrhau diogelwch y ffyrdd.

Cytunodd Alan Jones Evans i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at y newid siâp yn y twmpath ffordd wrth hen bont y lein.

Cytunodd y Clerc i anfon at Liz Saville Roberts i fynegi anfodlonrwydd nad ydyw rhuglder yn y Gymraeg yn ddewis amgen i ruglder yn Saesneg cyn mewnfudo i Gymru; bu nifer o achosion o bobl o'r Wladfa yn symud i Lanuwchllyn a oedd yn rhugl yn y Gymraeg (a Sbaeneg) ond nid yn Saesneg, a roedd hyn yn hwyluso iddynt fyw yng Nghymru.

**2111 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Huw Antur a ddywedodd fod y gwaith wedi cychwyn ar uwchraddio llawr uchaf Canolfan Henblas. Mae'r Ganolfan Deulu mewn llaw ac mae symud ymlaen gydag ymgysylltu gyda thrigolion Penllyn am eu dyheadau ar gyfer yr ardal.

### **2112 Gohebiaeth:**

#### **i. Parc Cenedlaethol Eryri:**

Cymeradwywyd **Cais NP5/71/377D** sef adeiladu annedd menter wledig, Cwm Ffynnon, Nant y Barcud, Llanuwchllyn

**Cais NP5/71/LUL297D:** Ystyriwyd y cais am dystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Defnydd Presennol) i ddefnyddio'r anecs fel llety gwyliau hunain gynhaliol 2 Coed Y Lôn Cottage, Llanuwchllyn. LL23 7ST. Mynegwyd pryder difrifol am ddiogelwch y fynedfa o'r A490. Mynegwyd anfodlonrwydd yn y drefn fod defnydd heb ganiatâd am gyfnod o 4 mlynedd yn gallu arwain at dderbyn Tystysgrif Gyfreithiol. Roedd y Cynghorwyr yn hyderus y bydd y Swyddogion yn mynnu cofnodion ariannol, TAW a chofnodion ymwelwyr dilys wrth ystyried ceisiadau o'r math hwn.

**ii. Cyngor Gwynedd :** Derbyniwyd gwybodaeth yn cynnig cymorth am drefniadau o ganlyniad i Brexit,

**Polisi gosod tai yng Ngwynedd :** derbyniwyd gwybodaeth am newidiadau i'r drefn o flaenoriaethu ceisiadau.

**iii Bash Mawr Y Bala:** Gyda siom derbyniwyd neges y trefnydd am ganslo'r achlysur.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/4/20 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref*  
Amser gorffen: 9.30